# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mark Child | Adran Etholiadol: | West Cross |

| | |
|---|---|
| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

- Cynhaliwyd cymorthfeydd bob dydd Llun yng Nghanolfan Gymunedol West Cross, yn bresennol bob yn ail â'm cyd-gynghorydd West Cross, Des Thomas. Yr un broblem fwyaf, fel sydd bob amser wedi bod, oedd y diffyg tai fforddiadwy. Gwneuthum fy ngorau i helpu pobl i gyflwyno'u hachos cystal ag y bo modd a helpodd hyn mewn rhai achosion, ond yn sicr nid pob un.
- Cynhaliais nifer o gymorthfeydd stryd ar draws y ward.
- Gwneuthum arolwg preswylwyr am y problemau parcio o gwmpas Heol Alderwood, rwyf wedi cytuno ar nifer o fesurau â phreswylwyr, gan geisio datblygu cynifer ag y bo modd.
- Gwneuthum arolwg preswylwyr am gyflwyno terfyn cyflymder 20mya ar gyfer Lôn Sweet Briar, Ambleside Place a Kennilworth Place, a'i gyflwyno.
- Cyflwynais derfyn 20mya ar Heol Fairwood y tu allan i Ysgol Mayals, fel rhan o addewid maniffesto.
- Gweithiais gyda swyddogion y cyngor i atal defnydd amhriodol ac anghyfreithlon o'r gorsafoedd ailgylchu yn West Cross, yn enwedig Warwick Place a Kenilworth Place, fel bod amgylchedd glanach gan breswylwyr
- Gweithiais gyda Chymdeithas Cymuned y Mwmbwls (y trefniad ar y cyd rhwng Clwb Pêl-droed Mumbles Rangers a Chlwb Rygbi'r Mwmbwls) tuag at ennill prydles tymor hir ar gyfer Parc Underhill fel y gallent wneud gwelliannau mawr eu hangen, gan gynnwys siarad mewn cyfarfod cyhoeddus lle roedd y clybiau a mi'n gallu ennill llawer o gefnogaeth gymunedol.
- Aelod o Fforwm y Mwmbwls.
- Gwaith glanhau traeth wedi'i drefnu gan Ymddiriedolaeth Datblygu'r Mwmbwls a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol.
- Trefnais gael gwared ar gyfyngiadau parcio penodol ar Heol Norton a Rhodfa Norton i ryddhau lle i breswylwyr a busnesau lleol.
- Ar ben hynny, ymgymerais â nifer o achosion unigol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 2 / 8 | 25% |
| Y Cabinet | 14 / 16 | 88% |
| Y Cyngor | 17 / 17 | 100% |
| Grŵp Ymgynghorol Datblygu | 1 / 1 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 3 / 7 | 43% |

| | | |
|---|---|---|
| Panel Ariannu Allanol | 1 / 1 | 100% |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 2 / 5 | 40% |
| CYFFREDINOL | 40 / 55 | 73% |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

- Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Grange, helpais yr ysgol i fynd i'r afael â materion penodol megis cyllid a TG.
- Is-gadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol yr Esgob Gore â chyfrifoldeb arbennig dros Fathemateg a diogelu lle cymerais ran yn arolygiad Estyn yr ysgol.
- Aelod o Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr.
- Deuthum yn aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol PABM.
- Aelod o Fwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru.
- Euthum i Gynadleddau Dinasoedd Iach yn y DU ac Ewrop a chymryd rhan ynddynt.
- Cadeiriais Fforwm Dinas Iach Abertawe, lle mae'r cyngor, awdurdodau iechyd, tân, 3ydd sector, prifysgolion ac eraill yn ceisio gwella iechyd pob un ohonom.
- Cymerais ran wrth ddewis a chyflwyno gwobrau chwaraeon blynyddol Abertawe.
- Aelod o Fwrdd Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.
- Siaradais yn y gynhadledd ar gydweithio rhwng meddygon teulu a'r 3ydd sector yn Abertawe.
- Euthum i 'Ein Bae', seminar rheoli arfordirol ar gyfer Bae Abertawe.
- Aelod o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe.
- Darparais dystiolaeth i bwyllgorau craffu amrywiol.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Gweithiais gyda swyddogion cynllunio a thai i ddod o hyd i opsiynau ar gyfer mwy o dai fforddiadwy yn West Cross.

Cymerais ran wrth gyflwyno cynnig liw nos i arolygwyr. Roedd hyn yn rhan o'n cynnig i ennill statws y Faner Borffor am ansawdd, diogelwch ac amrywiaeth. Euthum i wobrau'r Faner Borffor a derbyn baner Abertawe.

Cymerais ran yn y seminar “Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn”, lle trafodwyd parodrwydd plant 3 oed yn Abertawe at yr ysgol a chytunwyd ar hyn. Nid oedd digon yn barod i athro ddechrau eu haddysgu. Ers hynny, rwyf wedi bod yn gweithio ar gytuno ar yr hyn mae angen iddo wella a sut mae ei wella. Os gallwn helpu plant a theuluoedd i fod yn barod at yr ysgol pan maent yn dechrau, bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr yn eu bywydau, o ran iechyd, addysg yn y gwaith, tai, enillion etc. Dyma un o rannau allweddol fy ngwaith fel Aelod y Cabinet.

Cyfarfodydd â Chyngor Cymuned y Mwmbwls am sut mae gwneud iawn am y toriadau yng nghyllideb Cyngor Abertawe dros y blynyddoedd i ddod. Yn siomedig, penderfynwyd gorffen y rhain.

Lansiais Gydlynu'r Ardal Leol, cynllun newydd i helpu pobl i barhau'n ddiogel, yn hyderus ac yn annibynnol yn eu cymunedau a lleihau'r angen am ymyriad gwasanaethau cymdeithasol neu iechyd yn eu bywydau. Mae'r ffordd hon o weithio'n tarddu o Awstralia lle mae cydlynwyr ardal leol mewn ardaloedd/cymunedau. Eu gwaith hwy yw rhoi arweiniad, gwybodaeth, anogaeth a chefnogaeth achlysurol i bobl hŷn, pobl ag anawsterau dysgu neu salwch meddwl neu anabledd i wella'u lles

ac ansawdd eu bywydau. Hefyd, gallant helpu i feithrin gallu'r gymuned i gynnwys y fath unigolion. Dyma un o elfennau pwysicaf fy mhortffolio, yr wy'n gobeithio y bydd o fudd i nifer mawr o bobl ar draws Abertawe. Ar adeg pan fod adnoddau'r cyngor yn cael eu gostwng, mae'r fenter hon hyd yn oed yn bwysicach. Rydym wedi cyflwyno cydlynwyr ardal leol yng Ngorseinon, Sgeti a St Thomas/Bonymaen, a gobeithio y gallaf ddod o hyd i'r adnoddau i ehangu'r gwasanaeth.

Sefydlais gyfarfod cychwynnol cyfeillion parciau ar draws Abertawe i gysylltu'r holl grwpiau amrywiol, newydd a hen, fel y gallant ddysgu gan ei gilydd ac fel y gall eraill roi cyngor a chymorth. Yn aml mae arian ar gael i'r grwpiau hyn ar gyfer gwelliannau nad yw ar gael i'r cyngor. Mae hyn yn dod yn bwysicach gan fod yr arian sydd ar gael ar gyfer parciau yn Abertawe'n cael ei ostwng yn sylweddol wrth i'r Llywodraeth Ganolog osod cyni.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
13/05/2015 - Cyfryngau a Sgiliau Cyfweliad
12/05/2015 – Ymwybyddiaeth o Wrthgaethwasiaeth a Masnachu Pobl
26/11/2014 - Difenwi
31/10/2014 - Diogelu
Ar ben hynny, euthum i ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â'r canlynol:
Camfanteisio'n Rhywiol ar blant; Deall Data Ysgolion Cynradd;
Seminar AoHNE Cymru ar Dirweddau Dynodedig Cymru yn y Dyfodol
Seminarau ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol; Hyfforddiant Trwyddedu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

- Un o'r dirprwyon a ymwelodd â Chyngor Dinas Nottingham i gael dealltwriaeth o elfennau amrywiol o'i waith ac ym mha elfennau roedd yn llwyddo.
- Euthum i gyflwyniad cynllun canol y ddinas i gynulleidfa leol, cynorthwyais wrth gyflwyno cynllun canol y ddinas i fuddsoddwyr ac arianwyr yn Llundain.
- Aelod o Grŵp Cynghori Canol y Ddinas, lle rwy'n ceisio sicrhau canol dinas iach. Mae hynny'n golygu llai o geir, lle i feicio a cherdded yn ddiogel, mannau gwyrdd a pharciau bach, dyluniad lle mae pobl yn teimlo'u bod yn gweddu iddo, yn ogystal â bod yn ysbrydolus.
- Euthum i gyfarfodydd rhanddeiliaid traethau i helpu i lunio cynllun rheoli cyrchfan ar gyfer ein traethau Baner Las.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000.00 Aelod y Cabinet - Lles a Dinas Iach
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 31.05.15 |